# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU – IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD A DATBLYGIAD ECONOMAIDD RHANBARTHOL

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Llun, 22 Gorffennaf 2024** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.Stewart** |
| **Cynghorwyr**: | R.Francis-Davies, H.Evans, J.Hurley a/ac P.Miller |
| **Parc Cenedlaethol Cynrychiolwyr:** | L.Bickerton |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | W.Walters, S.Walters, S.Davies, A.Williams, S.Aldred-Jones, H.Morgan, S.Brennan, M.Wade, P.Relf, K.Tillman a/ac J.Woodman-Ralph |

---

1. **CROESO A CHYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2024 fel cofnod cywir.

4. **DIWEDDARIAD AR GYFLAWNI - LLES ECONOMAIDD A DATBLYGIAD ECONOMAIDD RHANBARTHOL**

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad am y broses o roi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar waith yn ne-orllewin Cymru, sy'n un o bileri allweddol y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol.

Esboniodd y swyddogion fod diweddariadau blaenorol wedi rhoi gwybod i'r pwyllgor am yr amserlenni gan Lywodraeth y DU ac am greu'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol, y manylwyd arno yn adran gyntaf yr adroddiad a ddosbarthwyd, ynghyd â'r camau a gymerwyd i roi'r broses ar waith, y gellid dod o hyd iddynt yn ail adran yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nodwyd mai'r gwahaniaeth allweddol rhwng y rhaglen yn ne-orllewin Cymru a rhai o'r rhanbarthau eraill oedd bod cyfres o brosiectau angori wedi cael eu creu yn unol â'r prosiect cyffredinol. Tynnodd y swyddogion sylw at y ffaith bod rhai o'r prosiectau angori wedi cael eu rhoi ar waith ar draws pob un o'r pedwar awdurdod lleol, megis y thema datblygu busnes, er mwyn sicrhau cysondeb rhanbarthol, gan hefyd ganiatáu i'r holl ardaloedd awdurdodau lleol addasu'r rhaglen hon i'w gofynion penodol eu hunain. Crybwyllwyd bod hyn hefyd yn berthnasol i themâu eraill megis gweithgarwch gwledig, creu lleoedd a chefnogi cymunedau.

Rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor fod llai na 4% o'r rhaglen yn cael ei defnyddio at ddibenion gweinyddu, a oedd yn llawer rhatach na rhaglenni blaenorol; cadarnhaodd y swyddogion mai dyma un o elfennau cadarnhaol y rhaglen hon.

Dywedodd y swyddogion eu bod o'r farn yn ystod camau cynnar y rhaglen hon fod angen dirprwyo a bod yn hyblyg cymaint ag y bo modd, gan lynu wrth ymagwedd gyson; mewn rhai achosion, pan oedd gan awdurdodau lleol alwad agored am brosiectau annibynnol, bu'n rhaid iddynt hefyd drafod yr hyn roeddent yn ei gynnig ag arweinwyr angori, yn enwedig o ran themâu busnes a chyflogadwyedd. Nodwyd bod hyn wedi arwain at rwydweithiau lleol cryf iawn yn gweithredu ar lefel leol, a oedd yr un mor bwysig â'r partneriaethau ar lefel genedlaethol.

Crybwyllwyd bod cryn wybodaeth am fonitro bellach ar gael, y bydd aelodau etholedig yn ei derbyn ar lefel leol drwy adroddiadau monitro chwarterol helaeth; bydd yr adroddiadau hyn yn crynhoi'r wybodaeth sy'n deillio o bob prosiect, gan gynnwys data gwariant a straeon newyddion da sy'n tynnu sylw at fusnesau a chymunedau a oedd wedi cael cymorth.

Tynnodd y swyddogion sylw at y ffaith eu bod wedi cwrdd â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru i sicrhau bod swyddogion yn cael yr holl wybodaeth am gynigion er mwyn gwirio nad oeddent yn gwrthdaro â'r hyn roedd Llywodraeth Cymru'n ei gynnig. Er enghraifft, rhaid i geisiadau am grantiau busnes gael eu cyflwyno drwy Fusnes

Cymru i sicrhau bod busnesau'n derbyn yr holl gymorth sydd ar gael a bod hynny'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod prosiectau'n dechrau cyflawni canlyniadau; roedd cyfanswm o fwy nag £1m wedi'i neilltuo i ychydig yn llai na 500 o fusnesau ledled y rhanbarth. Yn ogystal, roedd y swyddogion yn gweld datblygiadau o ran creu swyddi, gan gynnwys cwmnïau newydd, y mae rhai ohonynt yn dechrau defnyddio lle ar y strydoedd mawr, gan ategu'r Rhaglen Trawsnewid Trefi.

Cynhaliwyd trafodaeth am y ffigurau gwariant. Nodwyd nad oedd proffiliau gwreiddiol Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol wedi cael eu diweddaru eto; felly, er ei bod yn ymddangos bod cryn oedi yn erbyn proffiliau, roedd yn gymesur â'r farn gyffredinol bod y rhaglen oddeutu dau chwarter ar ei hôl hi. Nodwyd bod hyn oherwydd oedi cyn cymeradwyo'r rhaglen ym mis Rhagfyr 2022 a'r effaith ddilynol ar awdurdodau lleol wrth iddynt symud ymlaen heb sicrwydd ynghylch a fyddai'r rhaglen yn parhau; mae hyn yn atgyfnerthu achos yr awdurdodau lleol sydd am weld y rhaglen yn cael ei hymestyn am o leiaf ddau chwarter, neu'n hwy'n ddelfrydol, er mwyn rhoi rhagor o amser i'r rhaglen gyflawni ei chanlyniadau'n llwyr. Ychwanegwyd bod y graffiau yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn adlewyrchu hyn.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd hefyd yn cynnwys rhai o brif ffigurau'r rhanbarth, o ran y lleoedd a oedd yn cael eu creu, y bobl a oedd yn cael cyflogaeth a nifer y mentrau a oedd yn cael eu cefnogi; er enghraifft, dyfarnwyd grantiau busnes gwerth £5.2m hyd yn hyn ac roedd hyn yn parhau. Mynegodd y swyddogion eu barn ynghylch sut roedd y rhanbarth yn gweithio'n gydlynus iawn; roedd perthnasoedd rhwng y swyddogion yn gryf a'r perthnasoedd â phartneriaid allanol yr un mor gryf, ac roedd pobl yn weddol fodlon ar y ffordd roedd y rhaglen yn gweithredu gan ei bod yn fwy hyblyg ac yn llai llethol na threfniadau blaenorol. Ychwanegwyd bod y brif elfen yn gwneud gwahaniaeth gweladwy mewn cymunedau.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod Cadeirydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol wedi ysgrifennu i'r llywodraeth i ofyn am amser ychwanegol i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cwblhau.

Mynegodd yr aelodau fod canlyniadau rhanbarthol yn dangos pa mor dda oedd y model hwn a pha mor addas ydoedd am gynnal y fath gynlluniau; eglurwyd nad oeddent am ailgydio yn y model blaenorol a oedd wedi cael ei ddefnyddio. Gofynnwyd a fyddai'n ddefnyddiol

ymgymryd â gwaith ynghylch y gwersi a ddysgwyd a'r math o raglenni y gellid eu cynnal yn y dyfodol; esboniodd y swyddogion y byddai tîm y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yn Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi arolwg dros yr wythnosau nesaf. Felly, roedd y swyddogion eisoes wedi dechrau crynhoi gwybodaeth a data i baratoi am hyn; roedd llawer o wybodaeth am effaith wirioneddol y model hwn am swm weddol fach o arian o'i gymharu â'r symiau a oedd ar gael yn flaenorol.

Mynegodd aelodau'r pwyllgor eu bod yn ddiolchgar i'r timau dan sylw am fynd â'r rhaglen waith hon rhagddi.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

## 6. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**